# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Uta Clay | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliodd holl gynghorwyr Llansamlet gymorthfeydd rheolaidd, ar nos Wener 1af a 3edd y mis, 5-6pm yng Nghanolfan Gymunedol Gellifedw, Lôn Gwesyn, ac ar 2il a 4ydd dydd Sadwrn y mis, 10.30-11.30am yng Nghlwb Ieuenctid y Trallwn, Heol Bethel.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 9 | / | 9 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 1 | / | 4 | 25 | % |
| **CYFFREDINOL** | **31** | **/** | **39** | 79 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | 5 | / | 9 | 56 | % |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 3 | / | 6 | 50 | % |
| Panel Craffu Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Safonau Ansawdd Tai Cymru | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **16** | **/** | **19** | **84** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd PACT ar gyfer ardaloedd Gellifedw/Llansamlet a'r Trallwn. Rwy'n gwasanaethu ar gyrff llywodraethu ysgolion cynradd y Glais a'r Trallwn ac yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Gymunedol Gellifedw'n rheolaidd.

Y llynedd, sefydlais Warchodfa Natur Bro Tawe a sefydlais Gyfeillion Parc Heol Las a Phwll Scott ddwy flynedd ynghynt ac rwy'n parhau i fynd i gyfarfodydd.

Rwy'n rhan o Bartneriaeth Dyfrffyrdd Mewndirol Bae Abertawe sy'n ceisio cysylltu camlesi Tawe, Nedd, a Thennant. Mae hwn yn nod uchelgeisiol a fydd, os bydd yn llwyddiannus, yn rhoi manteision enfawr i bobl leol yr ardal a hwb bendigedig i dwristiaeth. Hefyd, mae gennyf gysylltiadau â Phrifysgol Abertawe a'r nod yw cysylltu llwybrau beicio/cerdded â'r gamlas a'r gwaith copr â Phwll Scott.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Llifogydd lleol yng Ngellifedw: Ar ôl i gontractiwr Persimmon, Cuddy, glirio'r safle yn ystod haf sych, poeth 2014, arweiniodd glaw trwm dilynol at nifer o lifogydd lleol difrifol. Trefnodd cynghorwyr Llansamlet nifer o gyfarfodydd a arweiniodd at roi mesurau ar waith; daeth y rhain â rhyddhad sylweddol, ond mae'r broblem yn parhau i godi pryderon difrifol.
Heol Las – gyrru'n rhy gyflym a thagfeydd: Yn 2014, gwrthwynebodd cynghorwyr Llansamlet i'r caniatâd cynllunio gan Persimmon Homes a orfododd y datblygwr i gytuno i

£65,000 ar gyfer Parc Heol Las a £60,000 ar gyfer gwelliannau diogelwch traffig. Bydd y £60K bellach yn cael ei wario i osod palmant i gerddwyr rhwng Ffordd Scott a Pharc Heol Las a chlustogau arafu ar ran uchaf Heol Las i orfodi ceir i arafu.

Llwybrau diogelwch, tanffordd i bont y rheilffordd ar Heol yr Orsaf: Roedd damwain yn siŵr o ddigwydd yma – ers i mi gael f'ethol, ymgyrchais dros welliannau diogelwch i'r danffordd hon; roeddem o'r diwedd yn llwyddiannus gyda'n cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud taith gerdded plant i'r ysgol ac oddi yno'n fwy diogel.

Ymgyrchoedd cymunedol parhaus - Emily: Oherwydd y problemau gyda llifogydd parhaus, trefnais nifer o gyfarfodydd safle a chyfarfodydd â Dŵr Cymru, Persimmon, swyddogion y cyngor, preswylwyr a chynghorwyr ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
23/02/2016 - Sesiwn Datblygu Aelodau Rhanbarthol - Anableddau
25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Nid yw mater y safleoedd teithwyr wedi'i ddatrys ac mae'n mynd â llawer o'm hamser. Mae cynghorwyr Llansamlet yn cefnogi ymdrechion y cynghorydd arweiniol, Bob Clay, yn y frwydr gyson i gyflawni anheddiad cyfiawn i bobl Llansamlet.

Mae Gwasanaethau i Oedolion yn un o'r problemau enbytaf mae awdurdodau lleol yn ei hwynebu oherwydd toriadau llywodraeth y Torïaid. Roedd f'arbenigedd fel gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ymddeol yn ddefnyddiol ar y paneli craffu amrywiol rwyf wedi gwasanaethu arnynt dros y blynyddoedd. Rwy'n credu y gwneuthum gyfraniad sylweddol i wella'r Gwasanaethau i Oedolion a chyflwyno achos darbwyllol dros gynnal gwasanaethau mewnol.

Yn y flwyddyn nesaf hon, rwy'n bwriadu dechrau 'grwpiau tyfu bwyd'. Rwy'n croesawu etholwyr â diddordeb yn Llansamlet i gysylltu â fi am sefydlu grŵp yng Ngellifedw.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 25.05.2016 |